# Bwletin y Farchnad HCC


Tachwedd 2025

> Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn archwilio datblygiadau allforio o fewn sector cig eidion y DU, pwysau cyflenwi byd-eang, a'r cyferbyniad parhaus rhwng galw rhyngwladol cryf a defnydd domestig mwy cynnil.
>
> **Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi & Mewnwelediad Busnes**

## PERFFORMIAD ALLFORIO CIG EIDION Y DU

Yn ôl data diweddar gan CThEF; mae allforion cig eidion ffres ac wedi rhewi yn y DU y flwyddyn hyd yma (Ionawr i Fedi) tua 2% yn is na'r un cyfnod yn 2024. Mae'r lleihad bach hwn yn adlewyrchu argaeledd gwartheg tynnach yn gynharach ar y farchnad ddomestig. Yn fwy diweddar, mae perfformiad allforio wedi cryfhau'n sylweddol, gyda danfoniadau misol yn ystod diwedd yr haf a dechrau'r hydref yn fwy na lefelau blwyddyn yn gynharach. Roedd y cyfaint misol diweddaraf yn ystod mis Hydref bron i 20% yn uwch na'r mis cyfatebol yn 2024, ar bron i 11,000 tunnell. Mae gwerthoedd allforio wedi aros yn gadarn trwy gydol 2025, yn cael eu cefnogi gan brisiau gât y fferm uchel a gallu allforwyr y DU i ddiwallu'r galw cyson ar draws marchnadoedd yr UE marchnadoedd nad ydynt yn yr UE. Mae cyrchfannau'r UE yn parhau i ddominyddu cyfeintiau cyffredinol, tra bod marchnadoedd yn Asia a'r Dwyrain Canol wedi dangos diddordeb o'r newydd wrth i gyflenwadau byd-eang dynhau. Mae cydbwyso carcasau hefyd yn parhau i fod yn fudd strategol pwysig, gan fod rhai darnau cig eidion yn parhau i ddenu prisiau cystadleuol dramor.

**Allforion cig eidion ffres & wedi rhewi yn y DU**




*Ffynhonnell: CThEF*


## CYFLENWAD CIG EIDION BYD-EANG

Mae amodau cyflenwad cig eidion byd-eang yn parhau i fod yn dynn, gyda gwledydd allforio mawr fel Awstralia, yr Unol Daleithiau a Brasil yn ymdopi gyda llai o argaeledd gwartheg, heriau sy'n gysylltiedig gyda'r tywydd a chyfnodau ailadeiladu gyr. Mae'r cyfyngiadau hyn wedi cyfrannu at brinder byd-eang o gig eidion, gan godi prisiau rhyngwladol a chynyddu'r galw am gynnyrch o ansawdd gan gyflenwyr dibynadwy. Mae'r amgylchedd cyflenwi presennol wedi cryfhau sefyllfa gystadleuol y DU, yn enwedig mewn marchnadoedd premiwm sy'n ceisio cig eidion lles uchel yn ystod cyfnod o dyndra byd-eang. Mae sefyllfa ffafriol Sterling yn erbyn cenhedloedd allforio allweddol wedi darparu cymorth ychwanegol, gan helpu cynnyrch y DU i barhau i fod yn ddeniadol i brynwyr rhyngwladol. Ar y cyfan, mae'r rhagolygon byd-eang yn awgrymu y bydd cyfyngiadau cyflenwi yn parhau i ddechrau 2026, gan gynnal diddordeb cryf yng nghig eidion y DU.

## GALW DEFNYDDWYR DOMESTIG

Er bod perfformiad allforio wedi dangos momentwm calonogol, mae galw defnyddwyr domestig am gig eidion yn parhau i fod yn fwy cynnil. Mae prisiau manwerthu ledled Prydain Fawr yn parhau i olrhain ar lefelau uchel oherwydd cyflenwad domestig tynn a phrisiau gât fferm parhaus, sydd wedi dylanwadu ar ymddygiad prynu cartrefi. Mae data manwerthu diweddar gan Worldpanel by Numerator (a elwid gynt yn Kantar) yn dangos gostyngiad mewn cyfeintiau cig eidion a werthwyd o'i gymharu â lefelau blwyddyn ynghynt, gyda defnyddwyr yn dewis naill ai i leihau amlder prynu cig eidion neu newid tuag at opsiynau protein mwy fforddiadwy. Mae galw am wasanaethau bwyd wedi aros yn gymharol sefydlog, er bod pwysau costau ehangach ar draws y sector yn parhau i gyfyngu ar dwf cryfach. Er gwaethaf y pwysau hyn, mae'r farchnad ddomestig yn parhau i fod yn allfa bwysig, yn enwedig ar gyfer darnau gwerth uwch

**Gwerthiannau cyfaint cig eidion sylfaenol mewn siopau ym Mhrydain**




*Ffynhonnell: Worldpanel by Numerator*

### *Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?*

*Mae'r cyfuniad o alw byd-eang cadarn, cyflenwadau rhyngwladol tynnach a pherfformiad allforio misol sy'n cryfhau yn parhau i ddarparu cefnogaeth sylfaenol i brisiau cig eidion gât y fferm y DU. Er bod galw defnyddwyr domestig yn parhau i fod yn sensitif i brisiau manwerthu uchel, disgwylir i farchnadoedd rhyngwladol chwarae rôl gynyddol bwysig wrth gynnal elw i gynhyrchwyr. Wrth edrych ymlaen, bydd y cydbwysedd rhwng cyflenwad domestig cyfyngedig, defnydd cartrefi sy'n lleihau a diddordeb byd-eang sy'n cryfhau yn parhau i fod yn nodwedd allweddol o'r farchnad wrth i'r sector symud tuag at 2026.*

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 22 Tachwedd

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **661.0c/kg**. Roedd hyn:


- + 0.7c ar yr wythnos flaenorol,
- 131.9c uwchlaw lefelau blwyddyn ynghynt.


Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn:

- Heffrod: 656.4c/kg (+ 0.5c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 653.2c/kg (+ 6.6c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 518.5c/kg (- 3.8c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Hydref 2025

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 252,400 pen – i lawr 8% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 179,200 pen - i lawr 9% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych -10%, heffrod -8%, a theirw ifanc +1%*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 347.7kg (+8kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 65,200 pen - i lawr 7% ar y flwyddyn.




## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 22 Tachwedd

Cyfartaledd pris ŵyn pwysau marw* ym Mhrydain oedd **695.0c/kg**. Roedd hyn:

- + 3.0c ar yr wythnos flaenorol
- + 33.8c o'i gymharu â lefelau blwyddyn ynghynt,
- 123.1c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 571.9c/kg).


Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 35,000 pen. Roedd hyn:


- - 1% ar yr wythnos flaenorol
- - 8% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach.

**Noder: Dangosir ŵyn hen dymor o 1 Ionawr i'r trydydd dydd Llun ym mis Mai ac ŵyn tymor newydd wedi hynny.*

### Trwybwn - Hydref 2025

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.0 miliwn pen – i lawr 10% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 971,800 pen – i lawr 10% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas ŵyn cyfartalog = 20.5kg (+0.6kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 119,100 pen – i lawr 11% ar y flwyddyn.




## MOCH

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 22 Tachwedd

Roedd Pris Moch Safonol yr UE (SPP)* ym Mhrydain yn sefyll ar **200.7c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.4c ar yr wythnos flaenorol,
- - 5.8c o'i gymharu â lefelau blwyddyn ynghynt,
- 16.3c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 184.4c/kg).

**Nodyn: nid yw'r gyfres ddata APP bellach ar gael gan nad yw'r data bellach yn bodloni trothwyon dilysu. Nid yw'r SPP (sy'n defnyddio gwahanol ffynonellau data) yn cael ei effeithio.*

### Trwybwn - Hydref 2025

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 964,400 pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 946,300 pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch glân cyfartalog = 92.0kg (+1.9kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 18,100 pen – i lawr 8% ar y flwyddyn.

